# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 20 Medi 2023

**Yn Bresennol (yn bersonol)**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd S Henadur, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd M Wiggins.

**Yn Bresennol (o bell)**
Cynghorydd SL Hancock, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Tegryn Jones (Prif Weithredwr), James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Richard Griffiths (Pennaeth Cyllid), Sara Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu), Martina Dunne (Rheolwr Polisi Strategol), Michelle Webber (Pennaeth Adfer Natur), Gayle Lister (Swyddog Cynllunio), Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth), Sarah Mellor (Arweinydd Tîm Cadwraeth/ Ecolegydd Arweiniol), Sue Burton (Swyddog ACA Morol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd).

[Ymunodd y Cynghorydd C Williams â'r cyfarfod cyn ystyried cyhoeddiadau'r Cadeirydd.]

[ Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 11.30am; 11.40am – 13.15pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R Owens a Dr RM Plummer.

**2. Datgan Buddiannau**

Datgelodd y Cynghorydd B Price fuddiant personol yn adroddiad 30/23, Cynllun Datblygu Lleol 2: Ymgynghoriadau ar y Canllawiau Cynllunio Atodol.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, ac a eiliwyd gan Mrs J James, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2023.

Gofynnodd Aelod am gofnodi ar y Log Gweithredu bod adolygiad mewnol o'r adolygiad Cyflogau a Graddfeydd yn cael ei gynnal unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

**4. Log Gweithredu**

a) Hyfforddiant ar seiberddiogelwch (cofnod 11 – Awdurdod Parc Cenedlaethol 14/12/22)

Dywedwyd bod yr Aelod Arweiniol ar Seiberddiogelwch, Dr R Plummer, ac Aelod arall wedi llwyddo i gael mynediad i'r hyfforddiant.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr RH Davies, **PENDERFYNWYD** y byddai'r ddolen gyswllt ar gyfer yr hyfforddiant yn cael ei ailddosbarthu i'r Aelodau ac mai'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant yw 15 Tachwedd 2023.

b) Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd (cofnod 8 – APC 10/05/2023)

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan Aelod, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei bod yn y broses o gadarnhau dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Gweithgor Strategaeth yr Iaith Gymraeg ac y byddai'n dosbarthu'r dyddiad hwnnw i'r Aelodau cyn gynted â phosibl.

c) Gweithdy i drafod cynhyrchu incwm gan gynnwys rhestr wirio hunanwerthuso (cofnod 7 – APC 21/06/2023)

Cadarnhawyd bod y gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer 4 Hydref 2023 ond gall y dyddiad hwn newid (byddai'r Aelodau yn cael eu diweddaru) gan y gallai'r cyfweliadau ar gyfer y Pennaeth Cyllid gael eu cynnal ar y dyddiad hwnnw.

d) Mair a Tegryn i gyfarfod â Chadeiryddion Archwilio ac Adolygu Gweithredol i drafod atebolrwydd yr Aelodau o ran y Cynlluniau Cyflawni (cofnod 9 – APC 26/07/23)

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod pawb mewn trafodaethau i sicrhau dyddiad ar gyfer y cyfarfod.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol:

- Sioe Sir Benfro lle bu'n ymweld â stondin Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad a'r NFU ac yn cyflwyno Cwpan Pencampwriaeth gwartheg Simmental. Hefyd cyfarfu'r Cadeirydd â Lesley Griffiths (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) a Mark Drakeford (y Prif Weinidog) i drafod materion megis y Cynllun Ffermio newydd, Ffliw Adar a Thwristiaeth.

- Gwobrau Amddiffynwyr y Parc Cenedlaethol yn Oriel y Parc, Tyddewi. Seremoni oedd hon i gydnabod llwyddiant ac i ddathlu prosiect Gwreiddiau i Adferiad, Tîm Cenhedlaeth Nesaf y Parc Cenedlaethol ac Ecodewi.
- IRONMAN Cymru.
- Clwb Achub Bywyd a Syrffio Trefdraeth lle datganodd yn swyddogol bod yr adeilad ar ei newydd wedd ar agor. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gymerodd ran, ac ychwanegwyd bod y Clwb wedi diolch i dîm y Parc Cenedlaethol am eu cymorth.
- Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Sgowtiaid.
- Dadorchuddio'r gofeb ar Faes Awyr Tyddewi ar ben-blwydd Brwydr Prydain i gofio'r rhai a gollodd eu bywydau.

Dywedwyd bod y Dirprwy Gadeirydd, Dr RH Davies, wedi mynychu Gwasanaeth Dinesig Tyddewi ar ran y Cadeirydd.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i dalu teyrnged i Gadeirydd Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Steve Drinkwater, oedd wedi bod yn ei swydd ers 7 mlynedd a mwy ac oedd ar fin rhoi'r gorau i fod yn Gadeirydd. Ar ran yr holl Aelodau, diolchodd y Cadeirydd i Steve am ei ymrwymiad i warchod y Parc dros y blynyddoedd. Nodwyd y bydd y Cadeirydd newydd, Claire Dowe, yn cymryd yr awenau yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol nesaf.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023;
(ii) Y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2023;
(iii) Y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023;
(iv) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023;
(v) Y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023;
(vi) Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023;
(vii) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023;
(viii) Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

7. **Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni'r Amcanion Llesiant 2022/23**
Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Mair Thomas, a gyflwynodd yr adroddiad blynyddol oedd yn dangos y cynnydd a wnaed o ran diwallu amcanion llesiant yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn amlygu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y gweithgareddau a glustnodir yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2022/23 a datblygiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Dywedwyd mai hwn oedd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn erbyn Amcanion Llesiant newydd yr Awdurdod a gymeradwywyd gan yr Aelodau fis Mawrth 2022. Cytunodd yr Aelodau bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg ardderchog o weithgareddau'r Awdurdod a'i fod yn amlygu manteision yr ailstrwythuro o ran llwyddo i gyflawni'r amcanion.

Dywedodd Aelod y gallai adroddiadau yn y dyfodol roi mwy o ffocws ar y '4 C', a nodwyd hyn gan y Swyddog. Dywedodd yr Aelod hefyd bod yr adroddiad yn amlygu'r angen am Strategaeth Iaith Gymraeg newydd gan na fu llawer o symud ymlaen yn y maes hwnnw.

Dywedwyd bod 30 o weithwyr wedi gadael yr Awdurdod yn 2022/23 o gymharu ag 20 yn y flwyddyn flaenorol, a gofynnodd Aelod beth oedd i gyfrif am hyn. Eglurodd y Prif Weithredwr bod y ffigwr i'w briodoli i nifer o elfennau megis staff tymhorol a'r broses o newid o fewn yr Awdurdod. Ychwanegwyd er bod recriwtio wedi bod yn her i lawer o sefydliadau yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod yn parhau i recriwtio ymgeiswyr da.

Nodwyd bod cwestiwn ynghylch cywirdeb y ffigurau teithio i'r gwaith a gweithio gartref, a gofynnodd Aelod am eglurhad pellach. Ymatebodd y Swyddog bod Methodoleg Haen 3, fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi'i defnyddio i goladu'r data ar ffurf arolwg. Fodd bynnag nid oedd pob aelod o'r staff wedi llenwi'r arolwg ac felly nid oedd y data yn rhoi darlun cyflawn. Serch hynny ychwanegwyd bod y data yn dal i roi cipolwg ar batrwm y gweithlu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Dr RH Davies, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni'r Amcanion Llesiant 2022/23.

8. **Adroddiad Monitro Blynyddol 2023 ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 (CDLl2)**
Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Cynllunio, Gayle Lister, a gyflwynodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol oedd yn edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol flaenorol, o 1 Ebrill i 31 Mawrth, i asesu i ba raddau yr oedd strategaeth a pholisïau CDLl2 yn cael eu cyflawni.

Dywedodd yr Aelodau bod y mater 'Ceisiadau Cynllunio a Benderfynwyd yn groes i'r Argymhelliad' yn cael sylw cyson drwy gydol yr adroddiad, oedd yn rhoi’r argraff bod gan yr Awdurdod nifer uchel o'r achosion hyn. Awgrymwyd rhoi dadansoddiad o’r ffigurau ac eglurhad yn yr adroddiad er mwyn osgoi dryswch. Nodwyd hyn gan y Swyddog.

Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys mwy o wybodaeth am yr ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg, ac y dylai’r Gymraeg fod yn thema mwy trawsbynciol gan fod canran gyffredinol y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro wedi gostwng. Nodwyd hyn gan y Swyddog.

Rhoddwyd sylw i nifer y disgyblion ym mhob ysgol fel rhan o'r adroddiad, ac amlygwyd gan yr Aelodau bod Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru y Penrhyn wedi'u hepgor o'r rhestr, a gofynnwyd a ddylid ychwanegu'r ddwy ysgol hyn. Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi Strategol y byddai'n trafod hyn gyda Swyddog Addysg Cyngor Sir Penfro ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau yn derfynol.

Ar gynnig y Cynghorydd P Morgan, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD**;

i) cymeradwyo'r sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad B.
ii) cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol oedd ynghlwm (gweler Atodiad A) ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2023, yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.

**9. Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2): Ymgynghoriadau ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Polisi Strategol, Martina Dunne, a gyflwynodd adroddiad oedd yn cynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y CCA drafft a'r ddogfen CCA wedi'i diweddaru. Dywedwyd yr ymgynghorwyd ar dair dogfen ganllaw, yr oedd un ohonynt wedi’i pharatoi ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. Tynnodd y Swyddog sylw at un gwelliant oedd yn weddill oedd eto i'w wneud (roedd manylion y gwelliant i'w gweld ym mhwynt 45 o Atodiad A i’r adroddiad).

Cytunodd yr Aelodau bod yr ymatebion yn briodol a dywedwyd bod yr ymatebion a dderbyniwyd oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddefnyddiol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, derbyniwyd dau awgrym gan yr Aelodau am gynnal gweithdy; un ar effaith hirdymor ynni adnewyddadwy ar y dirwedd, a’r llall ar effaith hirdymor y clefyd coed ynn ar y dirwedd. Nodwyd yr awgrymiadau gan y Swyddogion.

Dywedodd Aelod bod y diffiniad yn yr adroddiad o Forweddau yn amwys, ac eglurodd y Swyddog bod y diffiniad wedi'i gopïo o ganllawiau Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Swyddog i weld a ellid rhoi gwybodaeth fanylach.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd P Morgan, **PENDERFYNWYD**;

i) cytuno ar ymatebion y Swyddogion i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd yn Atodiad A.

ii) Mabwysiadu’r Canllawiau Cynllunio Atodol ar:
   a) Morweddau yn amodol ar y newidiadau yn Atodiad B (a baratowyd ar y cyd â Chyngor Sir Penfro).
   b) Coed a Choetiroedd yn amodol ar y newidiadau yn Atodiad B.
   c) Colli Gwestai a Thai Llety fel y nodir yn Atodiad B.

iii) dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Polisi Strategol wneud mân newidiadau pellach gan gynnwys ystyried sylwadau Cyngor Sir Penfro ar y sylwadau ar y Cyd Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Forweddau. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig gan Gyngor Sir Penfro o natur sylweddol yn cael eu hadrodd yn ôl i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w hystyried ymhellach.

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:30am a 11:40am]*

**10. Cais am Gyllid Cyfleusterau Toiledau gan Gyngor Sir Penfro (CSP)**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu, Sara Morris, a gyflwynodd adroddiad y Gweithgor Aelodau a ffurfiwyd mewn ymateb i gais ffurfiol gan CSP i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynghylch ariannu cyfleusterau toiledau ar draws y Parc Cenedlaethol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y materion a glustnodwyd gan y Gweithgor a sefydlwyd i ystyried y mater, a'u hargymhellion ar gyfer ymateb.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys ystod o ddata a ystyriwyd gan y Gweithgor ac roedd hyn yn cynnwys system sgorio oedd yn clustnodi pa gyfleusterau unigol oedd yn cyfrannu fwyaf at ddibenion y Parc Cenedlaethol. Dywedwyd nad oedd APCAP yn rheoli nac yn cynnal a chadw unrhyw doiledau ac nid oedd unrhyw ofyniad cyfreithiol i'r Awdurdod ymateb yn gadarnhaol i'r cais. Ychwanegwyd bod yr Awdurdod eisoes yn cyfrannu tua £800k tuag at wasanaethau statudol ac anstatudol CSP.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â siom yr Aelodau ynghylch y sefyllfa a phwysigrwydd toiledau cyhoeddus i Sir Benfro, ei chymunedau a'r diwydiant twristiaeth.

Cytunwyd gan yr Aelodau y dylai'r ymateb gynnwys eglurhad ynghylch yr amserlen i osgoi dryswch, amod bod adolygiad yn cael ei gynnal i sicrhau camau ymlaen, ac amod bod y Gweithgor yn cynnwys Swyddogion ac Aelodau. Gofynnwyd hefyd i bwysigrwydd toiledau i'r prosiect Ysgolion Awyr Agored gael ei nodi yn yr ymateb.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan Aelod, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r argymhelliad a gyflwynir i CSP am gyfnod o 2 flynedd yn unig ac y byddai perchnogaeth y toiledau yn parhau gyda CSP. Ychwanegodd bod yr Awdurdod eisoes yn gwneud cyfraniad ariannol sylweddol drwy gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus y Sir, a gan na allai'r Awdurdod godi unrhyw arian ychwanegol, byddai angen i unrhyw gyfraniad ddod o naill ai Grant y Parc Cenedlaethol neu refeniw a gynhyrchir o ystod o ffynonellau cynhyrchu incwm.

Fel opsiwn arall, gofynnodd Aelod a allai'r Awdurdod gefnogi mwy o leoliadau toiledau pe baent yn agor am 6 mis yn unig. Eglurodd y Swyddog, yn dilyn trafodaethau gyda CSP, y cadarnhawyd, oherwydd cost dŵr a thrydan, na fyddai'r arian a arbedir yn ddigon i'w wneud yn opsiwn ymarferol.

Mynegodd Aelod eu pryder ynghylch cynnig rhannol yr Awdurdod oherwydd adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod a'r posibilrwydd na fyddai CSP yn ei dderbyn. Awgrymwyd bod cynllun cyfathrebu allanol yn cael ei roi ar waith pe bai'r argymhelliad yn cael ei dderbyn er mwyn helpu i reoli canfyddiad y cyhoedd o'r cynnig.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, **PENDERFYNWYD**:

i) gwneud cynnig ffurfiol i Gyngor Sir Penfro i ariannu cyfleusterau toiledau mewn lleoliadau penodol o fewn y Parc Cenedlaethol am gyfnod o ddwy flynedd.
ii) bod y cynnig hwn yn amodol ar gais am ymrwymiad gan Gyngor Sir Penfro i sefydlu gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Parc Cenedlaethol (Aelodau a Swyddogion), ynghyd â phartneriaid perthnasol eraill, i ddatblygu strategaeth i geisio cyllid grant i wella'r safonau yn gyffredinol mewn lleoliadau o amgylch yr arfordir ac i ddatblygu prosiect Arfordir Hygyrch, gan gyflwyno ceisiadau am arian grant dros y cyfnod hwn o ddwy flynedd.

**11. Cymeradwyo Grantiau yn unol ag Adran 76 o'r Safonau Ariannol**

Croesawodd y Cadeirydd yr Ecolegydd Arweiniol, Sarah Mellor, ac i'r Swyddog Ardal Cadwraeth Forol Arbennig Sir Benfro, Sue Burton, a gyflwynodd adroddiad oedd yn amlinellu manylion Prosiect yr Arfordir

Gwyllt! a’r rhaglen arfaethedig Adfer Wystrys Brodorol y gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo taliad untro o hyd at £45k i Brifysgol Bangor ar gyfer magu ac ailstocio wystrys brodorol cynhenid i Ddyfrffordd yr Aberdaugleddau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd prosiectau carbon glas a bioamrywiaeth, ac roedd yr Aelodau yn falch o weld y byddai'r prosiect mewn partneriaeth â Phrifysgol yng Nghymru sydd ag arbenigedd yn y maes. Rhoddodd y Swyddog ACA Forol gefndir pellach i'r Aelodau ar y prosiect arfaethedig a chadarnhaodd eu bod yn anelu at gydweithio â sefydliadau eraill i rannu arfer gorau, ac y byddai digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnal ar gyfer y cyhoedd.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo taliad o hyd at £45k i Brifysgol Bangor am fagu ac ailstocio wystrys brodorol cynhenid i Ddyfrffordd Aberdaugleddau.

**12. Cymeradwyo Grantiau yn unol ag Adran 76 o'r Safonau Ariannol**

Croesawodd y Cadeirydd yr Ecolegydd Arweiniol, Sarah Mellor, a gyflwynodd adroddiad oedd yn amlinellu manylion y Cynllun Cysylltu’r Arfordir oedd yn gofyn am i grantiau o dros £20,000 a ddyfernir drwy’r cynllun hwn gael eu dirprwyo i’r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) i’w cymeradwyo.

Holodd Aelod a ddylid adolygu trefniadau llywodraethu’r Pwyllgor CDC o ystyried y byddai’r ceisiadau yn rhai lleol a’r posibilrwydd y byddai gan Aelodau fuddiant personol. Rhoddwyd sicrwydd bod gan y Pwyllgor CDC y profiad angenrheidiol i ymdrin â cheisiadau lleol a cheisiadau mawr, i weithio gyda’r Swyddogion i sicrhau bod swm priodol o gyllid yn cael ei ddyfarnu i'r prosiectau blaenllaw a bod llywodraethu da yn cael ei gynnal gydol yr amser. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod trafodaethau ar y gweill i benderfynu a ddylai'r Pwyllgor CDC gael ei newid i fod yn Banel Dyfarnu Grantiau mwy cyffredinol gyda chylch gorchwyl diwygiedig. Fodd bynnag byddai ymgynghori â'r Aelodau yn digwydd cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

Yn dilyn trafodaeth, sefydlwyd nad oedd uchafswm wedi ei bennu ar gyfer y swm y gallai ymgeiswyr wneud cais amdano drwy'r cynllun hwn. Awgrymwyd felly y dylid pennu swm sbardun arall ar gyfer prosiectau mwy o faint y byddai angen eu cydlofnodi cyn cael eu cymeradwyo. Nodwyd hyn gan y Swyddog.

Ar gynnig Dr RH Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD**:

a) cymeradwyo dirprwyo i’r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy i gymeradwyo grantiau o dros £20k a ddyfernir fel rhan o'r Cynllun Cysylltu'r Arfordir.
b) Diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn dilyn trafodaeth gyda'r Pwyllgor a'i gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

**13. Uned oeri newydd hanfodol yn Oriel y Parc**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Cyllid, Richard Griffiths, a gyflwynodd adroddiad oedd yn amlinellu manylion uned oeri newydd oedd yn hanfodol i Oriel y Parc. Dywedwyd bod caffael yr uned oeri newydd yn fater o frys gan fod yr uned oeri oedd yn rheoli’r amodau atmosfferig hanfodol yn yr oriel wedi peidio â gweithio yn annisgwyl ddechrau mis Awst 2023 ac nad oedd modd trwsio’r uned. Dywedwyd wrth yr Awdurdod y byddai’n rhaid aros am 12 wythnos o dderbyn yr archeb cyn cael uned oeri newydd, ac er mwyn osgoi ymestyn y cyfnod yn hwy nag oedd angen, penderfynwyd atal y rheolau caffael arferol.

Nodwyd bod yr uned oeri flaenorol wedi methu yn annisgwyl a gofynnodd Aelod a ddylai'r uned gael ei gwirio yn rheolaidd yn y dyfodol i osgoi sefyllfa debyg rhag codi eto ac i sicrhau y gallai'r broses gaffael briodol ddigwydd. Nodwyd yr awgrym gan y Swyddog.

Ar gynnig y Cynghorydd P Morgan, a eiliwyd gan Dr S Hancock, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo defnyddio rheol sefydlog contract 16 o ran caffael uned oeri newydd yn Oriel Gelf Oriel y Parc.

**14. Amrywio Rheolau Sefydlog Contractau ar gyfer adnewyddu Meddalwedd Esri Arc GIS Ar-lein**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Adfer Natur, Michelle Webber, a gyflwynodd adroddiad oedd yn amlinellu manylion llwyfan meddalwedd rheoli swyddi yr Awdurdod yr oeddent yn ceisio adnewyddu'r feddalwedd ar ei gyfer drwy amrywio'r Rheolau Sefydlog Contractau. Dywedwyd bod prynu Esri ArcGIS Ar-lein wedi'i awdurdodi gyntaf yn 2018 ac y byddai colli'r system yn awr yn arwain at flynyddoedd lawer o ddata a'r system sy’n dyrannu, cofnodi a monitro gwaith ac adrodd yn ôl yn cael ei golli.

Ychwanegodd y Swyddog, er bod yr adroddiad yn nodi bod y dyfynbris a dderbyniwyd am gyfnod o flwyddyn, bod angen cadarnhad gan ddarparwr y meddalwedd a fyddai'r contract am gyfnod o 3 blynedd yn unol â'r contract blaenorol. Cytunodd yr Aelodau y dylid ceisio contract o flwyddyn ar hyn o bryd er mwyn gweld beth fyddai gan y farchnad agored i’w gynnig gyda'r nod o adolygu'r system ochr yn ochr â systemau posibl eraill ar ôl cyfnod o flwyddyn.

Ar gynnig Dr RH Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo amrywio’r rheolau sefydlog i adnewyddu'r tanysgrifiad i system Esri ArcGIS Ar-lein am gyfnod o flwyddyn.

## 15. Polisi Ymddygiad Annerbyniol gan Achwynwyr a Pholisi diwygiedig o Ymdrin â Chwynion

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Caroline Llewellyn, a gyflwynodd adroddiad oedd yn amlinellu polisi Ymddygiad Annerbyniol arfaethedig a Pholisi Cwynion diwygiedig. Dywedwyd bod y Polisi Ymddygiad Annerbyniol gan Achwynwyr wedi'i gynnig i'w gyflwyno oherwydd y cynnydd cyffredinol mewn ymddygiad gwael gan nifer fach o bobl. Cadarnhawyd mai diben y Polisi Cwynion diwygiedig oedd newid y drefn o 2 gam i broses 1 cam symlach er budd yr achwynwyr a'r Swyddogion. Ychwanegodd y swyddog y byddai'r ddwy ddogfen ar gael yn Gymraeg.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â siom yr Aelodau bod angen cael Polisi Ymddygiad Annerbyniol gan Achwynwyr ond roeddent yn falch y byddai’r polisi o gymorth i’r staff mewn sefyllfaoedd anodd. Awgrymodd Aelod y byddai’n fuddiol cynnwys cymal ychwanegol i nodi bod cyflwyno cwynion blinderus yn annerbyniol yn y Polisi Ymddygiad Annerbyniol gan Achwynwyr er mwyn amddiffyn y staff yn well.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd P Morgan, **PENDERFYNWYD** bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Polisi Ymddygiad Annerbyniol gan Achwynwyr a'r Polisi Ymdrin â Chwynion diwygiedig yn amodol ar y diwygiadau uchod.

## 16. Unrhyw Fater Arall

O ran cofnodion cyfarfodydd, gofynnodd y Cadeirydd am i enwau'r Swyddogion oedd yn cymryd rhan hefyd gael eu cofnodi yn y rhestr presenoldeb. Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion i hyn.

**Nodwyd.**